



# Gweithgaredd 9: Cofnodi amheuon a honiadau

(Achos ffug at ddibenion hyfforddiant yn unig)

Mae Terry'n weithiwr cymorth mewn canolfan ddydd i bobl ag anableddau dysgu. Mae'n cyd-dynnu'n dda gyda Mair sy'n defnyddio'r ganolfan ddydd yn rheolaidd. Mae Mair yn byw gyda'i rhieni a Jon ei brawd. Daw Mair i'r ganolfan ar ôl y penwythnos ac yn lle dilyn y drefn arferol o gadw'i chot cyn siarad â phawb yn y gweithdy crefft 'aildefnyddio', mae'n dweud ei bod hi'n oer a bod ei braich yn brifo. Pan mae Terry yn gofyn pam ei bod yn brifo, mae'n dweud ei bod wedi ei bwrw ar ddodrefn wrth helpu i lanhau'r tŷ. Dywed mai Jon oedd ar fai. Mae Mair yn ymddangos yn dawelach nag arfer am weddill y dydd. Mae Terry'n sylwi bod arddwrn dde Mair yn edrych fel petai wedi chwyddo a braidd yn wyrdd. Nid yw Mair yn fodlon i Terry edrych ar ei braich ac mae'n gwisgo ei chot drwy'r dydd. Mae Terry'n dweud wrth reolwr y ganolfan am hyn, ac mae'r rheolwr yn cytuno y dylai Terry ofyn i Mair os yw'n cael gofyn i'w rhieni beth ddigwyddodd. Mae Mair yn cytuno.

Ar ddiwedd y dydd, mae mam a thad Mair yn dod i'w chasglu ac mae Terry'n gofyn sut y gwnaeth frifo ei hun. Maent yn dweud wrtho ei bod hi'n lletchwith iawn a'i bod wedi'i brifo wrth fwydo'r ieir yn yr ardd neithiwr siŵr o fod. Mae Terry'n herio hyn drwy ddweud bod y clais yn edrych yn hŷn a bod Mair wedi dweud mai Jon oedd yn gyfrifol. Maent yn ymateb mewn ffordd amddiffynnol ac yn dweud yn flin eu bod yn fwy nag abl i ofalu am eu merch eu hunain.

Yn awr mae gan Terry achos rhesymol dros amau bod Mair wedi cael ei cham-drin o bosibl. Mae'n llunio adroddiad fel a ganlyn:

*Ddydd Mawrth yma daeth Mair i'r ganolfan gyda'i braich wedi chwyddo a'i chleisio'n wael. Rwy'n credu bod ei brawd wedi bod yn ymladd â hi unwaith eto oherwydd gall fod yn genfigennus o'r sylw ychwanegol y mae Mair yn ei gael gan ei rhieni ac mae mewn trafferth gyda'r heddlu'n aml. Siaradais â'i rhieni a wnaeth ymateb mewn ffordd amddiffynnol a cherdded i ffwrdd mewn tymer. Mae'n debyg eu bod yn ceisio cuddio'r ffaith na allant ofalu am Mair yn iawn mwyach ond mae'n rhaid iddynt gadw'r teulu gyda'i gilydd a pheidio â chynnwys unrhyw un arall.*



# Gweithgaredd 9: Cofnodi amheuon a honiadau

(Achos ffug at ddibenion hyfforddiant yn unig)

Mae Terry wedi gwneud cyfres o dybiaethau yma. Mae wedi dangos rhagfarn tuag at bobl ac mae'n defnyddio gwybodaeth am Jon nad oes unrhyw ffynhonnell arall yn ei chadarnhau. Nid yw wedi bod yn wrthrychol nac yn ffeithiol ac mae mewn perygl o gael ei gyhuddo o ddangos rhagfarn, bod yn amhroffesiynol a hyd yn oed fod yn enllibus gan ei fod yn gwneud cyhuddiadau. Mae Terry'n llygad ei le i fod yn amheus ynghylch yr anaf, y ddau esboniad gwahanol, ymddygiad anarferol Mair ac ymateb y rhieni. Cymerodd y camau priodol drwy osgoi holi Mair yn ormodol a gofyn am ei chaniatâd i siarad â'i theulu. Roedd Terry'n iawn hefyd i beidio â rhannu ei amheuon gydag unrhyw un heblaw'r rheolwr. Gwnaeth adnabod arwyddion posibl cam-drin a'u mynegi yn y ffordd briodol ar unwaith, cyn llunio adroddiad ysgrifenedig. Byddai ei gofnod wedi bod yn well drwy nodi rhywbeth fel hyn:

*Heddiw, 6 Mehefin 2016, daeth Mair i ganolfan ddydd 'The Beeches'. Roedd yn gwisgo cot aeaf drwchus a gwrthododd ei diosg am fod ei braich dde yn brifo, dywedodd. Ni siaradodd ryw lawer heddiw ac nid oedd am ymuno â'r grŵp crefft. Roedd hyn yn anarferol oherwydd mae'n awyddus iawn i dorchi llewys a dechrau gwneud pethau yn y grŵp fel arfer. Roeddwn yn gallu gweld bod ei harddwrn dde wedi chwyddo a braidd yn wyrdd. Pan ofynnais iddi beth a ddigwyddodd dywedodd ei bod wedi brifo ei braich wrth lanhau'r tŷ y diwrnod cynt ac mai 'Jon ei brawd oedd ar fai'. Ar ôl trafod gyda'r rheolwr, cytunwyd y byddwn yn siarad â theulu Mair ar ôl gofyn am ei chaniatâd. Dywedodd Mair y gallwn holi ei rhieni am ei braich dost a dywedodd y rhieni wrthyf ei bod wedi brifo ei hun ddoe wrth fwydo'r ieir yn yr ardd a'i bod yn lletchwith bob amser. Fe wylltion nhw gyda fi pan holais i nhw ond roedd Mair yn ymddangos yn awyddus i adael gyda nhw.*